



Cynnal Aseidiadau Risg Gwirfoddoli

Fel sefydliad mae gennych ddyletswydd i asesu risg rôl neu weithgaredd y bydd gwirfoddolwr yn ymgymryd ag ef. Nid yw'n bosib creu rôl sy'n ddi-risg i wirfoddolwr, ond fel sefydliad gallwch roi mesurau rheoli ar waith i leihau'r risg.



Pam asesu risg?

I ddiogelu eich sefydliad, eich gwirfoddolwyr, buddiolwyr a defnyddwyr gwasanaeth, cydymffurfio â'ch yswiriant. Mae'n arfer dda, oherwydd rydych yn gwerthfawrogi eich gwirfoddolwyr a'u diogelwch.



Pa fathau o rolau sydd angen i chi gynnal Aseiad Risg ar eu cyfer?

Gweithio'n annibynnol, rolau gweithio gartref, cyfleoedd grŵp, gweithgareddau awyr agored, cyfleoedd un i un.

Aseu Risg a phethau i'w hystyried

Dylech drafod y broses dreuliau gyda gwirfoddolwyr arfaethedig yn ystod y broses gynefino, yn ogystal â rhoi'r dogfennau perthnasol sydd eu hangen arnynt i hawlio costau.

Adnabod y risg(iau) neu'r peryglon



- Nodi'r risg(iau) neu beryglon.
- Nodi pwy fydd yn cael eu niweidio.
- Dadansoddi'r risg.
- Nodi mesurau rheoli y gellir eu rhoi ar waith i leihau'r risg.
- Nodi a oes angen gwneud unrhyw ystyriaethau eraill.
- Parhau i fonitro'r gweithgaredd/rôl.
- Cadw cofnod cywir o'r holl aseidiadau risg a gwblhawyd.





Hysbysu'r gwirfoddolwr

Ar ôl cwblhau asesiad risg o rôl neu weithgaredd y bydd gwirfoddolwr yn ei wneud, mae'n bwysig rhannu'r wybodaeth hon â'r gwirfoddolwr. Dylai'r gwirfoddolwr fod yn ymwybodol o asesiad risg sydd wedi'i ddatblygu a lle bo'n briodol derbyn copi ar gyfer eu cofnodion.

Adolygu asesiad risg

Pan wneir asesiad risg, mae'n bwysig ei adolygu a'i ddiweddarau yn barhaus. Os gwneir unrhyw newidiadau i'r asesiad risg, dylid rhoi gwybod i'r gwirfoddolwr am y newidiadau i'w gwneud yn ymwybodol. Mae hefyd yn bwysig bod y gwirfoddolwr yn deall y broses o adrodd yn ôl unrhyw newidiadau i'r asesiad risg, i ganiatáu i'ch sefydliad ailasesu'r rôl wirfoddoli a diweddarau'r asesiad risg yn unol â hynny.

Efallai y byddwch yn canfod fel sefydliad, y gallech chi a'ch staff elwa o hyfforddiant ynghylch Asesiadau Risg. Bydd hyn yn eich caniatáu i gefnogi eich gwirfoddolwyr yn well yn eu rôl wirfoddoli.

Dolenni defnyddiol



Canllaw TSSW ar gyfer cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel
- Yn cynnwys sut mae Asesu Risg gweithgareddau gwirfoddoli.



Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:
https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/index.htm?utm_source=hse.gov.uk&utm_medium=refferal&utm_campaign=risk&utm_content=home-page-info



NCVO/KNOWHOW:
<https://knowhow.ncvo.org.uk/studyzone/how-to-carry-out-a-risk-assessment-1>



Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr:
<https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard>



NICVA:
<https://www.nicva.org/resource/risk-assessment>

Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs